**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 26AIN EBRILL 2016 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Maer, Cynghorydd Dr S. Roy
Cynghorydd S. Williams (Is-Gadeirydd)
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs G. Baker, R. Foreman, Mrs L. Griffiths, J. Pearson (Warden Coed), C. Wood.

**SWYDDOG:** Mrs R. Dudley, Clerc y Dref Gynorthwyol

**421/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Glerc y Dref, Mrs Tina Earley, a'r Cynghorwyr N. Bastow, Mrs L. Edwards a Mrs M. Jones.

**422/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**423/15 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5eo Ebrill 2016 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.***

**424/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:**

**a. Cofnod 351/15 - Cyfarfod ar Safle Promenâd Rhos:**

Rhoddodd y Cynghorydd Chip Wood adroddiad ar lafar am y cyfarfod ar y safle lle bu ef a'r Cynghorwyr D. Griffiths, R. Foreman ag S. Taylor yn cwrdd â Mr Vic Turner ar 13eg Ebrill. Cynhaliwyd y cyfarfod ar y rhan o'r ffordd rhwng Bwyty Fortes a Thafarn Rhos Fynach. Tra ar y safle, fe amlygwyd y problemau o gerbydau / cerddwyr / beicwyr yn ceisio teithio trwy'r dagfa hwn pan welwyd achosion o ddamweiniau bron a digwydd. Mae Mr Turner, erbyn hyn, yn gwybod beth yw maint y broblem. Fe gytunwyd mai'r ateb delfrydol yn y dyfodol byddai llwybr troed newydd a llwybr i feicwyr, ond yn y cyfamser, y modd hawsaf i wella diogelwch byddai atal parcio ceir ar y ffordd sy'n arwain tua'r gorllewin. Byddai hyn yn golygu colli 5/6 safle parcio. Y farn oedd bod digon o le i breswylwyr parcio ar y blaen gyrtiau fel na fuasai unrhyw anhawster iddynt hwy.

***Penderfynwyd diolch i Mr Turner am ei gymorth a gofyn iddo roi gwybod am yr hyn sy'n mynd ymlaen.***

**b. Cofnod 372/15 – Caeau'r Canmlwyddiant:**

Fe nodwyd bod y Cynghorydd Liz Roberts wedi cyflwyno diweddariad yn cadarnhau bod Gerddi'r Frenhines wedi cael eu hychwanegu at y rhestr o safleoedd gyda statws 'Cae'r Canmlwyddiant' gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC).

**c. Cofnod 403/15(a) – Adolygiad o Strategaeth Ased Parcio Ceir:**

Cyflwynodd Clerc Cynorthwyol adroddiad gan y Grŵp Craffu Gorchwyl a Gorffen er gwybodaeth

***Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.***

**ch Cofnod 403/15(b) – Hysbysfyrddau:**

Fe nodwyd gan yr Aelodau bod 'Mens' Shed' wedi cwblhau'r gwaith o gynnal a chadw'r hysbysfwrdd yn Llandrillo yn Rhos. Cafodd y gwaith argraff dda ar yr Aelodau a gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr yn diolch i 'Mens' Shed'. Gofynnodd y Cynghorydd Bill Bagnall a fyddai'n bosibl i ofyn i 'Mens' Shed' cynnal a chadw'r hysbysfwrdd yng nghanol Bae Colwyn gan fod hwnnw hefyd mewn cyflwr gwael.

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol hysbyseb A5 a ellid eu harddangos ar yr hysbysfyrddau gan gyfyngu ar hysbysebion i faint A4, dim hysbysebu ac i ddefnydd y gymuned leol yn unig. Gofynnodd y Cynghorydd Mrs Griffiths i'r cofnod ddangos ei gwrthwynebiad i gyfyngu ar faint y posteri am ei bod o'r farn byddai hyn yn atal rhai grwpiau rhag defnyddio'r hysbysfwrdd. Roedd yr Aelodau o'r farn na ddylid arddangos eu manylion personol ar yr hysbysfwrdd ac mai Neuadd y Dref dylai bod y pwynt cyswllt.

***Penderfynwyd caniatáu'r defnydd o hysbysebion A5 ar bob hysbysfwrdd a hepgor arddangos manylion personol a bod Neuadd y Dref i fod yn bwynt cyswllt.***

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol neges e-bost gan y Cynghorydd Chris Hughes yn gofyn i'r syniad o godi hysbysfwrdd yn ardal Ffordd Greenfield / Ffordd Lawson cael ei ystyried. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd hwn yn ardal efo lawer o boblogaeth ac y byddai gosod hysbysfwrdd ger y Swyddfa Bost ar Ffordd Abergele yn lleoliad llawer gwell. Cytunwyd i adael i'r Cynghorydd Hughes wybod am sylwadau'r Cyngor.

**d. Cofnod 404/15(b) – Parcio arfaethedig ar y stryd (Llandrillo yn Rhos):**

Cyflwynwyd canlyniadau system lwybro cerbydau gan Beiriannydd Cynorthwyol CBS Conwy i ddangos y man newid yn lleoliad y safle i'r anabl.

***Penderfynwyd nodi'r bwriad.***

**dd Cofnod 404/15(c) - Lansiad Digonedd o Lefydd i Chwarae ar 21$^{ain}$ Mawrth 2016:**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mrs Baker adroddiad am y lansiad a dywedodd y bu'n digwyddiad diddorol gyda llawer yn bresennol. Mae'r Cynghorydd Mrs Baker yn bwriadu ymweld ag Ysgol Gogarth yn Llandudno a dychwelyd at y Pwyllgor gyda syniadau am gyfleusterau chwaraeon a fyddai'n hybu ansawdd yr adnoddau chwarae i blant gydag anableddau.

e **Cofnod 406/15 - Gweithdy Blynyddol Rhandeiliaid Wales and West Utilities (WWU) a gynhaliwyd ar 12$^{fed}$ Ebrill 2016:**

Rhoddodd y Cynghorydd Mrs Baker adroddiad ar lafar am y gweithdy a fynychwyd ganddi. Mae gan gwmni WWU cynlluniau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol yn cynnwys gwasanaethau i adael i bobl fregus (henoed / anabl) wybod am unrhyw doriad yn y gwasanaeth os maent wedi cofrestru gyda hwy. Gofynnodd y Cynghorydd Baker i'r manylion hyn cael ymddangos ar ein gwefan ac i e-bostio'r manylion at y Cynghorwyr fel y gallent eu hanfon ymlaen i'w pwyntiau cyswllt.

**425/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

**a.** **Gwahoddiad i agoriad swyddogol Llyn Eirias**: Anfonwyd hyn yn flaenorol at y Cynghorwyr trwy e-bost. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc Cynorthwyol bod angen derbyn yr atebion erbyn 3$^{ydd}$ Mai 2016.

**b.** **Bwrdd Cyd-reoli Theatr Colwyn:** Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf am nad oedd unrhyw gynrychiolydd o'r Cyngor a fynychodd y cyfarfod yn bresennol.

**c.** **Grŵp Ymgynghorol Promenâd Bae Colwyn:** Cyflwynwyd yr Agenda.

**ch** **Panel Cynghori Ardaloedd Cadwraeth:** Cyflwynwyd rhybudd o'r cyfarfod.

**d.** **Bwrdd Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae:** Cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Bill Bagnall.

**dd** **Parc Eirias:** Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol dyfyniad o gofnodion Cabinet CBS Conwy parthed: maes chwarae 3G arfaethedig. Gofynnodd yr Aelodau pam fod y cynlluniau gwreiddiol wedi cael eu cildroi.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu i ofyn am esboniad pellach am y rhesymau dros y newid yn y cynlluniau ar gyfer y llain 3G newydd***

**e** **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Cyflwynwyd cynlluniau ar gyfer system unffordd yn Rhodfa Holyrood, Hen Golwyn.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth oddi wrth GBS Conwy.***

**426/15 Cŵn yn Baeddu:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol neges e-bost gan y Cynghorydd Foreman yn gofyn i Swyddogion Gorfodaeth Cŵn cael gwahoddiad ddod i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc Cynorthwyol cysylltu â'r swyddog priodol i'w gwahodd i ddod i drafod pryderon am gŵn yn baeddu a gorfodaeth.***

**4271/15 Arwyddion Llwybr yr Arfordir:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol neges e-bost gan breswylydd lleol yn cwyno am leoliad arwydd llwybr yr arfordir ar y Promenâd yn Llandrillo yn Rhos. Fe nodwyd bod rheiliau newydd yn cael eu gosod ar y rhan yma ac fe

awgrymwyd felly bod yr arwydd i gael ei adleoli pan fydd y rheiliau newydd yn eu lle ac i'r preswylydd cael gwybod am hyn.

***Penderfynwyd ysgrifennu at yr Harbwr Feistr i ofyn a ellid adleoli'r arwydd.***

**428/15 Cyngor Iechyd y Gymuned:**

Fe nodwyd y daflen newyddion yn annog pobl i gyflwyno sylwadau am wasanaethau Nyrsio Ardal.

**429/15 Rhandiroedd Traddodiadol a Phrosiectau Garddio dan Arweiniad y Gymuned:**

Fe nodwyd bod cyfarwyddwyd ar randiroedd a phrosiectau garddio dan arweiniad y gymuned wedi cael ei gyhoeddi yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

**430/15 Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

**a** Cofnodion Grŵp Mynediad Gwirfoddol Conwy - cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2016

**b** Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 12fed Ebrill 2016

**431/15 Cynllunio:**

**a.** Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBSC i'w ystyried.

***Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

**b.** Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed yn ddiweddar gan GBSC., er gwybodaeth.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio.***

**432/15 Ceisiadau am Drwyddedau:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol hysbysiad am y ceisiadau am drwyddedau ar gyfer ardal Bae Colwyn, er gwybodaeth.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r hysbysiad diweddaraf am geisiadau.***

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.20 pm

……………………… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 26TH APRIL 2016, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT:** The Mayor, Cllr Dr S Roy
Cllr S Williams, Vice-Chairman
Cllrs: W Bagnall, Mrs G Baker, R Foreman, Mrs L Griffiths, J Pearson, C. Wood.

**OFFICER:** Mrs R Dudley, Assistant Town Clerk

**421/15 Welcome and Apologies for Absence:**

Apologies for absence were received from the Town Clerk, Mrs Tina Earley and Cllrs N Bastow, Mrs L Edwards and Mrs M Jones.

**422/15 Declarations of Interest:**

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**423/15 Minutes:**

***Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 5th April 2016.***

**424/15 Matters Arising from Previous Minutes:**

a. **Min. 351/15 – Rhos Prom Site Meeting:**

Cllr Chip Wood gave a verbal report on the site meeting that he, Cllrs D Griffiths, R Foreman and S Taylor had attended with Mr Vic Turner on 13th April at the section of road between Fortes Restaurant and the Rhos Fynach Pub. Whilst on site, the problems of vehicle/pedestrian/cyclist trying to safely negotiate the narrow choke point were demonstrated by a couple of near misses and Mr Turner now appreciates the scale of the problem. It was agreed that a new footpath and cycle path would be the ideal solution for the future, but in the meantime, the simplest way to increase safely would be to ban car parking on the westbound carriageway. This would result in a loss of 5/6 car spaces. It was felt that there is adequate forecourt parking for residents so they will not be adversely affected.

***Resolved to thank Mr Turner for his assistance and to ask to be kept informed of any progress.***

b. **Min. 372/15 – Centenary Fields:**

It was noted that an update had been received from Cllr Liz Roberts to confirm that Queen's Gardens had been added to a list of sites to be considered for 'Centenary Field' status by Conwy CBC.

c. **Min 403/15(a) – Car Parking Asset Strategy Review:**

The Assistant Clerk submitted, for information, a report from the Scrutiny Task & Finish Group.

***Resolved to receive and note the report.***

d. **Min 403/15(b) – Noticeboards:**

Members noted that the Men's Shed had finished the maintenance on the notice board in Rhos on Sea. The Members were impressed with the work and requested that the Clerk send a letter of thanks to the Men's Shed. Cllr Bill Bagnall requested if the Men's Shed could be asked to maintain the Notice Board in the Centre of Colwyn Bay as it was also in a poor state of repair.

The Assistant Clerk submitted an A5 notice which could be displayed on the noticeboards to restrict notices to A4 size, no advertisements and for local use only. Members agreed that the noticeboards should be for local community use only. Cllr Mrs Griffiths asked that it be noted that she objected to the restriction of poster size as she felt that this would stop some groups from using the notice board. Members felt that their personal details should not be on the notice board and that the point of contact should be the Town Hall.

***Resolved that the A5 notice could be put on all the notice boards and that personal details should be omitted and the Town Hall should be the point of contact.***

The Assistant Clerk submitted an email from Cllr Chris Hughes requesting that consideration be given to erecting a notice board in Greenfield Road/Lawson Road area. Members felt that this area was not a well populated area and that a notice board by the Post Office on Abergele Road would be a much better location. It was agreed to inform Cllr Hughes of the Council's observations.

e. **Min 404/15(b) – Proposed on street-parking (Llandrillo yn Rhos):**

Vehicle tracking results were submitted from Assistant Engineer, Conwy CBC to show the proposed disabled bay and the minor change in position.

***Resolved to note the proposal***.

f. **Min 404/15 (c) – Play Sufficiency Launch held on 21st March 2016:**

Cllr Mrs Baker submitted a report on the launch and said that it had been an interesting and well attended event. Cllr Mrs Baker intends to visit Ysgol Gogarth in Llandudno and will return to the Committee with ideas for possible play facilities to enhance the quality of play provision for disabled children.

g. **Min 406/15 – WWU's Annual Stakeholder Workshop held on 12th April 2016:**

Cllr Mrs Baker gave a verbal report on the workshop that she attended. Wales & West Utilities had positive plans for the future. For vulnerable people (elderly/disabled) there is a service where the utility company will inform them of any disruptions in the service if you register with them. Cllr Baker requested that these details be put on our website and that information be emailed to Councillors for them to forward to their contacts.

**425/15** **Conwy CBC:**

The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence from CCBC:

**a.** **Invitation to the official opening of Llyn Eirias**: previously emailed to all members. The Assistant Clerk reminded members that replies needed to be received by 3rd May 2016.
**b.** **Theatr Colwyn Joint Management Committee**: This item was deferred to the next meeting as there were no Council representatives present who attended the meeting.
**c.** **Colwyn Bay Promenade Consultative Group**: The Agenda was submitted.
**d.** **Conservation Area Advisory Panel:** The Notice of Meeting was submitted.
e. **Bay Life Strategic Management Board:** A report from Cllr Bill Bagnall was submitted.
**f.** **Parc Eirias:** The Assistant Clerk submitted, an extract of CCBC Cabinet minutes re: proposed 3G playing surface. Members questioned why the original plans seem to have been reversed.

***Resolved to ask that the Clerk writes to request a further explanation regarding the reasons behind the change in the plans for the new 3G playing surface.***

.
**g.** A Temporary Road Traffic Regulation for a proposed one way system on Holyrood Avenue, Old Colwyn was submitted for information.

***Resolved to receive and note the correspondence from CCBC.***

**426/15** **Dog Fouling:**

The Assistant Clerk submitted an email from Cllr Foreman requesting that the Dog Enforcement Officer was invited to a future meeting.

***Resolved to ask the Assistant Clerk to contact the relevant officer to invite him/her to attend a future meeting to discuss concerns about dog fouling and enforcement.***

**427/15** **Coastal Path Sign:**

The Assistant Clerk submitted an email complaint from a local resident about the location of the coastal path sign on Rhos on Sea promenade. It was commented that all of the railings are being replaced at that section and it was therefore suggested that we ask if the sign be relocated when the railings are replaced and notify the resident of this request.

***Resolved to write to the Harbour Master to query if the sign could be relocated.***

**428/15** **Community Health Council:**

A news release encouraging people to give their views about District Nursing services was noted.

**429/15** **Traditional Allotments and Community Led Gardening Projects:**

It was noted that guidance on allotments and community led gardening projects has recently been published by the Welsh Government.

**430/15** **Other Correspondence:**

It was noted that the following items of correspondence are available on request from the Clerk:

**a.** Minutes from Conwy Voluntary Access Group – meeting held on 15th March 2016

**b.** Minutes from OCERA – meeting held on 12th April 2016.

**431/15** **Planning:**

**a.** The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule A attached.***

**b.** The Clerk submitted, for information, a copy of the Planning Decisions issued by CCBC.

***Resolved to receive and note the planning decisions.***

**432/15** **Licensing Applications:**

The Clerk submitted, for information, notice of the licensing applications listed by CCBC in recent weeks.

***Resolved to receive and note the licensing applications listing.***

The meeting closed at 7.20 p.m.

…..………………… Chairman